# Cyngor Tref ***NEFYN*** Town Council

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Blynyddol y Cyngor, Nos Fawrth 10/05/2022 ar Zoom am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arfon Hughes (Cad) | Catrin Roberts | Gruffydd Williams | Sharon Williams | Gwynfor Jones |
| Rhian Sanson | Gareth Jones | Gito Williams | Janice Evans | Caren Jones |
| Carys Roberts | Mared Llywelyn Williams | Rhys Llewelyn | Pat Humphreys (Clerc) | |

1. **Ymddiheuriadau.**
Alaw Llewelyn Roberts a Lleucu Jones. Croesawyd Rhian Sanson a'r Cynghorydd Gareth Jones fel Aelodau newydd o'r Cyngor Tref gan y Cadeirydd.
Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa o'r Rheolau Sefydlog ynglŷn â'r drefn o gyfrannu at eitem sydd ar yr agenda.

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
Janice Evans – Amgueddfa Forwrol Llŷn.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
Cofnodion Pwyllgor Zoom 12/04/2022
Penderfyniad: derbyn yn gywir.
Cynnig: Gwynfor Jones Eilio: Gito Williams

4. **Unrhyw Fater Brys**
**Cyfraniad ariannol Amgueddfa Forwrol Llŷn.**
Yn dilyn pwyllgor mis Mawrth pan drafodwyd y cais am gyfraniad ariannol mae'r clerc wedi derbyn mwy o wybodaeth ynglŷn â costau rhedeg yr Amgueddfa o ddydd i ddydd ynghŷd â gwariant sydd angen ei wneud yn y dyfodol megis: rhoi lifft i mewn – mae cais am grant Cyfalaf gan y Llywodraeth wedi ei geisio ar gyfer hyn, cael boiler newydd, diweddaru'r sustem gyfrifiadurol a gwaith cynnal a chadw angenrheidiol.
Pernderfyniad: Mae'r Cyngor Tref yn fodlon cefnogi'r Amgueddfa ond er mwyn penderfynnu faint o swm i'w gyfrannu penderfynwyd aros i weld faint o grant mae'r Amgueddfa yn ei dderbyn gan y Llywodraeth.
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Rhyw Llewelyn

5. **Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd**
Gan nad yw Cadeirydd y llynedd bellach yn aelod o'r Cyngor Tref mae angen penodi Cadeirydd newydd.
Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Catrin Roberts gymeryd y gadair ac eiliwyd y cynnig gan Mared Llywelyn Williams. Mae Catrin Roberts gyda'r dealltwriaeth o'r hyn oedd y cyn Gadeirydd a'r grŵp Hawl i Fyw Adra drwy Cyngor Tref Nefyn yn geisio ei gyflawni a petai cwestiynnau yn cael eu derbyn gan y Llywodraeth ar y materion yma yna mae ganddi y profiad i fedru cario'r gwaith yma ymlaen.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i gynnig y gader i Catrin Roberts a derbyniodd Catrin Roberts.
Cafwyd cynnig gan Gruffydd Williams i Mared Llywelyn Williams gario ymlaen fel is-gadeirydd am flwyddyn arall ac eiliwyd y cynnig gan Caren Jones. Mae gan Mared Llywelyn Williams

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651

ddealltwriaeth o'r materion pwysig yma hefyd i fedru cynnig cymorth i'r Cadeirydd. Ategodd y Cadeirydd y bydd y flwyddyn yma yn gyfle i'r Is-gadeirydd baratoi ar gyfer cymeryd y gadair ymhen blwyddyn.
Penderfyniad: pasiwyd yn unfrydol i Mared Llywelyn Williams gario ymlaen fel is-gadeirydd a derbyniodd Mared Llywelyn Williams.

**6. Aelodaeth yr Is-Bwyllgorau**

Gan fod dau aelod wedi gadael y Cyngor Tref mae angen penodi rhywun yn eu lle ar yr Is-Bwyllgorau.

Penderfyniad: Is-Bwyllgor Llyfrgell – Mared Llywelyn Williams
Is-Bwyllgor Ariannol – Gareth Jones
Is-Bwyllgor Rheolau – Rhian Sanson
Is-Bwyllgor Clwb Ieuenctid – Rhian Sanson
Is-Bwyllgor Mynwentydd – Gareth Jones a Gito Williams
Is-Bwyllgor Gweithgareddau – Caren Jones

Pan fydd yr Is-Bwyllgor yn cyfarfod fe fydd angen i'r Is-Bwyllgor hwnnw benodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd. Y Clerc i anfon rhestr newydd i bawb.

**7. Dogfennau'r Cyngor i'w adolygu a'u pasio:**

Rheolau Sefydlog, Rheolau Ariannol, Polisi Iaith, Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, Ffioedd Claddu, Rheolau'r Mynwentydd, Asesiad Risc, Côd Ymddygiad Aelodau, Polisi Pryderon a Chwynion, Ffurflen Bryderon, Trefn Cwyno a Rhestr Asedau.
Cafodd bawb gopi o'r holl ddogfennau drwy ebost i'w darllen cyn y cyfarfod.
Penderfyniad: Pasiwyd y polisiau a'r dogfennau i gyd ac eithrio y Polisi Iaith.
Cynnig: Arfon Hughes    Eilio: Catrin Roberts
Penderfynwyd i adolygu y Polisi Iaith fel y gellir ei chryfhau yn dilyn unrhyw Ymgynghoriad a fydd yn digwydd rhwng Cyngor Tref Nefyn a Cynghorau Cymuned a Thref eraill sydd yn defnyddio y Gymraeg fel prif iaith ond ei fod yn dal yn weithredol tan hynny.

**8. Codi pris cytundeb Cliff Hughes am y flwyddyn 2022-2023.**

Mae'r Cadeirydd wedi derbyn cais gan Cliff Hughes i godi'r taliadau mae yn ei dderbyn am dorri'r llwybrau am y flwyddyn yma. Mae Cliff Hughes wedi rhoi pris tendar tair blynedd i fewn ond nid oedd modd rhagweld yr adeg hynny faint o gynydd sydd wedi bod mewn costau tanwydd yn ddiweddar ac fel cyflogwr mae isafswn cyflog wedi mynd i fyny hefyd felly mae'n gofyn os ydi hi'n bosibl i'r Cyngor Tref godi'r pris cytundeb am y flwyddyn 2022-2023 o £11,000.00 i £11,400.00.
Penderfyniad: pasiwyd i godi'r pris.
Cynnig: Gruffydd Williams    Eilio: Gwynfor Jones

**9. Mynwent Morfa Nefyn –** estyniad i'r fynwent – diweddariad

Cafwyd diweddariad gan y clerc. Yn dilyn yr Is-bwyllgor ym mis Ebrill mae'r clerc wedi cadarnhau bod cais cynllunio yr Eglwys Gatholig sydd wrth ymyl y fynwent yn Morfa Nefyn wedi cael ei wrthod ac mae apêl ganddynt wedi cael ei wrthod hefyd felly ar y funud nid oes dim yn digwydd yno wedi

dweud hynny mae'n debyg y bydd crocbris arno petaent yn cysidro ei werthu ac felly allan o gyrraedd y Cyngor Tref. Cafwyd trafodaeth ar y tir sydd wrth ochor y fynwent hefyd sydd yn rhan o'r un cae ond daethpwyd i benderfyniad bod y tir yma yn rhu wlyb ac mai'r rhan gwaelod sydd yn sychach i greu estyniad na'r rhan yma. Datganodd un o'r aelodau bod lle i gladdu 50/60 yno ac felly nid oes problem ar y funud, ac mi fysa'n well neilltuo arian ar gyfer y fynwent bob blwyddyn o hyn allan a'i monitro hefyd bob blwyddyn i weld faint sydd yn cael eu claddu yno. Cynigiodd un o'r aelodau ein bod yn cario ymlaen hefo'r GPG ac i'r clerc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd a cynigiodd un arall o'r aelodau ein bod yn edrych i fewn i dalu'r £30,000.00 a ofynwyd yn wreiddiol am y tir ac hefyd faint mae Cynefin am ei gyfrannu tuag at y llwybr saff i'r ysgol. Mae'r aelod lleol wedi anfon llythyr at Cynefin ynglŷn â'r llwybr saff i'r ysgol ond heb dderbyn ymateb eto.
Penderfyniad: Aros nes y bydd ymateb wedi ei dderbyn gan Cynefin.
Cynnig: Arfon Hughes     Eilio: Gwynfor Jones

**10. CCTV Parc y Ddôl –** Diweddariad

Mae'r clerc wedi derbyn mwy o wybodaeth ynglŷn â rhoi CCTV yn Parc y Ddôl gan swyddog o Cyngor Gwynedd. Nid oes rheolau yn erbyn rhoi camerau fel hyn ar barc chwarae plant ond mae rhaid cwblhau nifer o dasgau cyn rhoi y camerau i fyny ac mae gwaith monitro ar ôl iddynt gael eu rhoi i fyny felly mae hyn yn golygu lot fawr o oriau i'w sefydlu ac edrych ar ei ôl i'r dyfodol. Mae un o'r aelodau wedi siarad hefo aelod o Bwyllgor Cae Chwarae Aberdaron sydd newydd roi CCTV yno ac fe holodd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r broses o roi CCTV i fyny yno ac 'roedd ei ymateb yr un fath a beth mae'r clerc wedi ei ddweud sef ei fod yn golygu lot fawr o waith.
Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo clerc Cyngor Cymuned Aberdaron i gael mwy o wybodaeth am y broses o roi CCTV i fyny ar y cae chwarae. Os y bydd y Cyngor Tref yn penderfynnu rhoi CCTV yn Parc y Ddôl yna fe fydd rhaid talu am yr oriau ychwanegol yma i'r clerc ac iddi gadw cofnod o'r oriau.

**11. Gweithiwr Achlysurol**

Mae'n debyg bod yna ddipyn o waith ychwanegol sydd fel arfer yn cael ei wneud gan weithiwr Cyngor Tref Nefyn heb gael ei wneud yn ystod mis Mawrth/Ebrill oherwydd diffyg cludiant ac yn dilyn hynny cafwyd nifer o gwynion ar 'facebook' ynglŷn â hyn felly mae angen penderfynnu beth i'w wneud os y gwnaiff hyn ddigwydd eto.
Penderfyniad: gofyn i weithiwr arall Cyngor Tref Nefyn i helpu allan petai hyn yn digwydd eto ond dim ond os yw'r gweithiwr arall yn hapus hefo hyn. Y Cadeirydd i siarad hefo'r ddau weithiwr i drafod a cytuno ar hyn.
Cafwyd ymholiad hefyd ynglŷn â giat mynwent Morfa Nefyn a paham nad ydi hi yn ôl yn ei lle wedi ei thrwsio a dywedodd y clerc ei bod wedi anfon nifer o ebyst at y person sydd yn gyfrifol am ei malu ond heb dderbyn ymateb.
Penderfyniad: yr aelod lleol i anfon llythyr at y person yma yn gofyn pa bryd fydd y giat yn ôl yn ei lle ar ôl cael diweddaraiad gan y clerc ar y sefyllfa yn gyntaf.

**12. Gohebiaeth a Dderbyniwyd**

Dim.

**13. Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

Ceisiadau Diweddarach
**C21/0786/42/LL** – Manora, Rhodfa'r Môr, Nefyn – Addasu tŷ annedd a garej presennol (Dosbarth Defnydd C3) yn 4 uned hunangynhwysol ychwanegol (Dosbarth Defnydd C3).
Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.
Cynnig: Sharon Williams   Eilio: Mared Llywelyn Williams

**14. Taliadau i'w gwneud**

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1034.74
- Taliad y Cadeirydd – pedwerydd taliad - £300.00
- Zurich Municipal – Yswiriant Cyngor Tref Nefyn 2022-2023 (cytundeb 5 mlynedd) - £2105.94
- Bacstal – Gwasanaeth Cyflogau - £132.00
- D. M. Parry – Taliad cyntaf mynwent Morfa Nefyn, Fron a Penniel - £450.00
- Cliff Hughes – Taliad cyntaf cytundeb llwybrau - £1140.00 & gwaith ychwanegol – £705.59 = £1845.59
- Tyddyn Sachau – Blodau Nefyn - £599.34
- Npower – Trydau Llyfrgell mis Ebrill - £146.88
- Zoom – Ad-daliad zoom i'r clerc - £143.88

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Gruffydd Williams   Eilio: Caren Jones

**15. Taliadau wedi eu derbyn**

- Praesept 2022-2023 – Taliad cyntaf - £39750.00
- HMRC Ad-daliad TAW 2021-2022 - £3405.57

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Symudol: 07901 704410 • Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com
Cadeirydd: Arfon Hughes – 07967 556651